

Ombwdsmon Cyfreithiol

Yma i helpu

Gall yr Ombwdsmon Cyfreithiol eich helpu i ddatrys eich cwyn ynghylch gwasanaethau cyfreithiol

Beth rydym yn ei wneud

Mae'r Ombwdsmon Cyfreithiol yn datrys cwynion ynghylch gwasanaethau cyfreithiol. Efallai fod cyfreithiwr wedi methu â gwneud yr hyn a gytunwyd, wedi bod yn araf wrth ymateb, neu wedi cynyddu eu taliadau heb egluro pam. Efallai'ch bod yn meddwl y gwrthodwyd gwasanaeth cyfreithiol ichi'n afresymol neu eich bod wedi'ch gorfodi i dderbyn gwasanaeth nad oedd ei angen arnoch.

Byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn ac ystyried yr holl ffeithiau er mwyn cyrraedd canlyniad teg. Rydym yn annibynnol, diduedd ac nid ydym yn ffafrio'r naill ochr na'r llall. Os penderfynwn fod y gwasanaeth a dderbynioch yn afresymol, gallwn sicrhau bod eich cyfreithiwr neu gwmni cyfreithiol yn unioni pethau.

Mae'n gwasanaeth am ddim i ddefnyddwyr.

Pa broblemau allwn ni helpu i'w datrys?

Gallwn ymchwilio i lawer o wahanol fathau o gwynion ynghylch gwasanaeth cyfreithiol, fel y ffordd mae cyfreithiwr wedi ymdrin ag ewyllys neu broblem deuluol, os ydych wedi derbyn gwasanaeth gwael pan ydych wedi prynu neu werthu tŷ neu wedi gwneud hawliad am anaf personol.

Gallwn ymchwilio i gwynion ynghylch pob math o gyfreithwyr: cyfreithwyr cyffredinol, bargyfreithwyr, trosgludiaethwyr trwyddededig, notariaid, twrneiod patent, twrneiod nod masnach, cwmnïau'r gyfraith a chwmnïau sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol.

I ddysgu a allwn helpu, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar gefn y daflen hon.

Pay all ddefnyddio'n gwasanaeth?

Pob aelod o'r cyhoedd a busnesau bach iawn, elusennau, clybiau ac ymddiriedolaethau.

Mae'n well gennym eich bod yn dod atom yn uniongyrchol, ond gallwch ofyn i ffrind, perthynas neu unrhyw berson arall i gysylltu ar eich rhan.

Beth os na allwn helpu?

Os na allwn helpu, gallwn eich cysylltu â sefydliadau eraill a allai'ch helpu. Er enghraifft, gall yr Awdurdod er Rheoleiddio Cyfreithwyr a Bwrdd Safonau'r Bar ddelio â phroblemau sydd y tu hwnt i'n pwerau ni.

Dyma'r camau mae angen ichi'u cymryd

Cam 1: Dywedwch wrth eich cyfreithiwr

Dylai'ch cyfreithiwr ddarparu gwasanaeth rhesymol ichi a'ch trin yn deg. Ond ar brydiau mae pethau'n mynd o chwith.

Os ydych yn anfodlon ar y gwasanaeth rydych wedi'i dderbyn, rhowch wybod i'ch cyfreithiwr fel bod ganddynt gyfle i unioni pethau. Dylai pob cyfreithiwr egluro sut mae eu gweithdrefn gwyno eu hunain yn gweithio.

Mae'n rhaid ichi roi cyfle i'ch cyfreithiwr ddatrys eich cwyn cyn y gallwn gael ein cynnwys. Gwnewch eich cwyn wrth y cyfreithiwr cyn gynted ag eich bod yn ymwybodol fod problem – peidiwch â'i gadael yn rhy hir.

Os ydych yn profi anawsterau wrth gysylltu â'ch cyfreithiwr ac nad ydych yn siŵr beth i'w wneud nesaf, cysylltwch â ni.

Cam 2: Rhowch amser i'ch cyfreithiwr ymateb

Dylech ganiatáu hyd at wyth wythnos i'ch cyfreithiwr ddatrys eich cwyn. Os nad ydynt yn delio â'ch cwyn er eich boddhad o fewn yr amser hwnnw, gallwch ein cynnwys.

Cam 3: Dewch â'ch cwyn atom ni

Dewch atom ni cyn gynted ag y gallwch ar ôl ceisio datrys pethau gyda'ch cyfreithiwr. Os nad ydych yn fodlon ar eu hymateb derfynol, mae gennych hyd at chwe mis i ddod â'ch cwyn atom ni.

Hefyd, mae'n rhaid bod y broblem wedi digwydd ar 6 Hydref 2010 neu ar ôl hynny neu, os digwyddodd y broblem cyn hynny, mae'n rhaid nad oeddech yn ymwybodol ohoni cyn 6 Hydref 2010.

Pan gysylltwch â ni, byddwn yn gofyn am wybodaeth gennych chi a'ch cyfreithiwr. Cadwch gopïau o unrhyw lythyrau ac e-bostiau yn ogystal ag unrhyw nodiadau y gallech fod wedi'u gwneud ynghylch beth ddigwyddodd a phryd. Pan gysylltwch â ni, bydd o gymorth os oes gennych:

- enw a chyfeiriad y cyfreithiwr neu gwmni cyfreithiol dan sylw;
- y dyddiad y dywedoch wrthynt gyntaf am eich cwyn;
- y dyddiad y daethoch yn ymwybodol gyntaf o'r broblem rydych yn cwyno yn ei chylch;
- manylion eu hymateb.

Anfon dogfennau inni

Ni allwn derbyn dogfennau gan storfeydd ar-lein fel Microsoft SkyDrive, Xdrive ac Livedrive. Atodwch ddogfennau i e-bost yn lle.

Fel arall, gallwch bostio'ch dogfennau. Os gwelwch yn dda anfonwch gopiâu yn unig, gan ein bod yn sganio'n post a dinistrio'r rhai gwreiddiol. Gwnewch gopiâu o unrhyw bapurau pwysig sy'n perthyn i'ch cwyn (llythyrau, datganiadau, dogfennau swyddogol neu dystysgrifau).

Camau gweithredu y gallwn eu cymryd

Datrysir y mwyafrif o gwynion yn gyflym ac anffurfiol trwy gael pawb i gytuno ar yr hyn sy'n deg. Gallwn gynnal ymchwiliadau mwy ffurfiol, os oes eu hangen, ond gall y rhain gymryd mwy o amser.

Os cytunwn fod gwasanaeth eich cyfreithiwr wedi bod yn anfoddhaol, gallwn ofyn iddynt:

- ymddiheurio ichi;
- dychwelyd unrhyw ddogfennau mae gennych hawl iddynt;
- gwneud rhagor o waith drostoch, os gall hyn unioni pethau;
- ad-dalu neu leihau eich ffioedd cyfreithiol; neu
- dalu iawndal os ydych ar eich colled neu wedi'ch trin yn wael (gall hyn fod unrhywbeth hyd at £50,000 ond yn gyffredinol rydym yn dyfarnu llai na £1,000).